**Date**/Dyddiad 14 Rhagfyr 2016
**Ask for**/Gofynwch am M Matthews
**Telephone**/Rhif ffôn 01446 709727
**Fax**/Ffacs 01446 709376
**e-mail**/e-bost MMatthews@valeofglamorgan.gov.uk
**Your Ref**/Eich Cyf MM/WM
**My Ref**/Cyf

The Vale of Glamorgan Council
Learning and Skills
Provincial House, Kendrick Road, Barry CF62 8BF
Telephone: (01446) 700111
www.valeofglamorgan.gov.uk

Cyngor Bro Morgannwg
Dysgu a Sgiliau
Tŷ'r Dalaith, Heol Kendrick, Y Barri CF2 8BF
Rhif ffôn: (01446) 700111
www.bromorgannwg.gov.uk

At: Rhieni, Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
Rhieni, Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu'r ysgolion bwydo sy'n gysylltiedig ag Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
Pennaeth, Staff a Chorff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
Ymgynghoreion Statudol

Annwyl Ymgynghorai

**Cynnig i gynyddu nifer y llefydd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg drwy ymestyn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar ei safle presennol o 1361 o lefydd i 1660 o lefydd**

Ar 12 Rhagfyr 2016, penderfynodd Cabinet Cyngor Bro Morgannwg ar y cynnig i ehangu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar ei safle presennol o 1361 o lefydd i 1660 o lefydd i ateb y galw'n y dyfodol am addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg.

Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad llawn ag ymgynghoreion rhagnodedig ddaeth i ben gyda chyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig i ehangu. Wrth wneud ei benderfyniad ystyriodd y Cabinet y cynnig yn unol â gofynion y Cod Trefnu Ysgolion 2013. Nodwyd na dderbyniwyd y Cyngor yr un gwrthwynebiad o safbwynt yr hysbysiad ar y cynnig.

Ystyriodd y Cyngor bob adroddiad Cabinet blaenorol yn ymwneud â'r cynnig a'r ymatebion i'r ymgynghoriad fel y'u gosodwyd yn yr Adroddiad Ymgynghori. Gan ystyried yr holl faterion, cymeradwyodd y Cabinet y cynnig. O ganlyniad bydd Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn cael ei ymestyn ar ei safle presennol o fis Medi 2020 yn amodol ar y cyllid angenrheidiol yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru.

Wrth benderfynu ar y cynnig, roedd y Cabinet yn fodlon y bydd y cynnig yn:

- Cynnal ansawdd a safon yr addysg yn yr ardal;
- Parhau i ddarparu cymysgedd o ddarpariaeth Gymraeg, Saesneg a ffydd o fewn Bro Morgannwg;
- Cynyddu'r cyfleoedd dysgu a sicrhau hygyrchedd addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mro Morgannwg.

Mae'r rhesymau dros y penderfyniad o safbwynt y ffactorau a amlinellwyd yn y Cod Trefnu Ysgolion fel a ganlyn;

**Safon ac Ansawdd Addysg**

Bydd y cynnig yn galluogi safon uchel yr addysg sydd yn yr ysgol bresennol i barhau i gyfrannu at ddarpariaeth o safon uchel yn yr ysgol estynedig. Byddai'r cynnig yn rhoi mwy a gwell adnoddau i Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg mewn adeiladau ysgol newydd a rhai wedi eu hail fodelu er mwyn cynnal yn fwy effeithiol ddatblygiad addysg bob oed o 3-19 oed. Bydd yn rhoi ystod eang o gyfleoedd dysgu i fyfyrwyr drwy gynnig amgylchedd dysgu helaethach

sy'n cefnogi a herio plant unigol i lwyddo gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

Ym marn Estyn "bydd y cynnig o leiaf yn cynnal safonau presennol addysg cyfrwng Cymraeg a chynnig cyfle i gynyddu nifer y llefydd sydd ar gael mewn addysg cyfrwng Cymraeg i gwrdd â'r galw cynyddol yn yr ardal".

**Yr angen am lefydd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Wrth gymeradwyo'r cynnig, mae'r Cyngor wedi ystyried ei ddyletswydd statudol i gwrdd â'r galw am addysg Gymraeg y rhagwelir y bydd yn tyfu'n sylweddol o fis Medi 2018 ymlaen. Rhagwelir y bydd Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn llawn erbyn 2020.

Bydd Bro Morgannwg yn parhau i gynnig addysg cyfrwng Cymraeg, Saesneg a darpariaeth ffydd. Bydd nifer y llefydd ysgol fydd ar gael i ddisgyblion sydd angen addysg cyfrwng Cymraeg yn cynyddu i ateb y galw cynyddol am lefydd ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.

Ni fydd unrhyw effaith ar hyd siwrneiau a'r llwybrau cerdded i ysgolion sydd ar gael o ganlyniad i'r cynnig gan y bydd yr ysgol yn weithredol ar yr un safle. Ni fydd dim yn y cynnig yn newid trefniadau, cymhwysedd na hygyrchedd cludiant ysgol.

Dywed Estyn "Mae'r Cyngor yn mynnu'n ddigon credadwy na fydd y cynnig yn cael effaith ar drefniadau derbyn na dalgylchoedd. Felly gall dyn yn rhesymol gymryd arno nad yw'n debygol iawn y bydd unrhyw effaith sylweddol ar drefniadau teithio dysgwyr".

**Sicrhau adnoddau addysg**

Byddai'r costau refeniw ychwanegol yn deillio o niferoedd disgyblion uwch yn cael eu diwallu gan y fformiwla cyllido ysgolion sy'n dyrannu y rhan fwyaf o gyllid i ysgolion ar sail niferoedd disgyblion. Byddai cynnydd cyffredinol yn nifer y disgyblion ar hyd y Fro yn golygu cynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw gan Lywodraeth Cymru fyddai'n cael ei neilltuo i ysgolion. Bydd y fformiwla ariannu disgyblion yn aros yr un fath ar gyfer yr ysgol estynedig.

Mae'r penderfyniad yn amodol ar y cymal yn y gweithdrefnau fel y'u lluniwyd yng nghyfansoddiad y Cyngor sy'n caniatáu i unrhyw benderfyniad o eiddo'r Cabinet gael ei adolygu. Os bydd y penderfyniad yn cael ei alw i mewn, caiff pob rhanddeiliad wybod.

Yn gywir



Paula Ham
Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau Dros Dro